**Papur y Bwrdd i'w nodi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

---

## Cofnodion Cyfarfod o'r Bwrdd, 13 Mawrth 2020

---

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Helen Lentle
Charlotte Cosserat

**Yn mynychu:**

Nicola Edwards
Lucie Griffiths
Steven Marshall
Angharad Reakes

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Ann Keane

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i gyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru.

## 2. Materion Presennol

**2.1** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol wybod i'r Bwrdd fod Ann Keane wedi ymddiswyddo o fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol. Roedd yn ddrwg gan y Bwrdd weld Ann yn gadael a diolchodd iddi am ei holl waith fel un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd.

**2.2** Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol a fyddai Gareth Lynn yn ymgymryd â rôl Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y cyfamser. Roedd Gareth yn fodlon gwneud hynny.

**2.3** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ac Andrew Goodall ddiweddariad ar COVID-19. Mae cyfres o gyfarfodydd wythnosol wedi'i sefydlu i alluogi'r Ysgrifennydd Parhaol i fonitro ac arwain ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws – COVID-19.

**2.4** Dywedodd Andrew fod cynllun gweithredu wedi'i lunio'r wythnos hon. Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol ddiweddariad ar yr effaith yn eu meysydd nhw a chytunodd y Bwrdd fod parodrwydd Llywodraeth Cymru i dderbyn risg wedi cynyddu yn sgil COVID-19.

**2.5** Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol bwysigrwydd cofnodi penderfyniadau a'r tybiaethau y mae'r penderfyniadau hynny wedi'u seilio arnynt. Trafododd y Bwrdd hefyd ganllawiau ar gyfer Cyrff Hyd Braich.

**CAM GWEITHREDU 1**: David Richards a Peter Kennedy i lunio nodyn ar gyfer Cyrff Hyd Braich.

**CAM GWEITHREDU 2:** Pawb i gofnodi penderfyniadau a thybiaethau ar waith yn ymwneud â COVID-19.

## 3. Y Weledigaeth ar gyfer Gofal Plant yn y Dyfodol.

**3.1** Roedd Nicola Edwards a Lucie Griffiths yn bresennol i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r Weledigaeth ar gyfer Gofal Plant yn y Dyfodol a fydd yn destun Sesiwn Herio Cyfarwyddwyr Anweithredol.

**3.2** Rhoddodd Nicola wybod i'r Bwrdd am yr opsiynau posibl i ehangu'r Cynnig Gofal Plant, ein gweledigaeth ar gyfer darpariaeth gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol, a'r system gofal plant yr hoffem iddi fod ar waith ymhen 10 mlynedd. Eglurodd hefyd fod angen cynllun clir, mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau gofal plant i blant a theuluoedd ledled Cymru.

**3.3** Croesawodd y Bwrdd y diweddariad a gofynnodd i'r tîm lunio papur cryno ychwanegol i gynnwys tabl o gamau allweddol ac ystadegau ynghylch dull gweithredu gwledydd eraill gan gynnwys cost, cyn y sesiwn herio. Trafododd y Bwrdd hefyd amseriad y sesiwn herio a nododd fod sesiwn ddydd Mawrth yn rhy gynnar. Cytunwyd i gynnal sesiwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**CAM GWEITHREDU 3:** Llunio papur cryno ychwanegol i gynnwys tabl o gamau allweddol ac ystadegau ynghylch dull gweithredu gwledydd eraill gan gynnwys cost, cyn y sesiwn herio.

**CAM GWEITHREDU 4:** Adolygu dyddiad y sesiwn herio ynglŷn â'r cynnig gofal plant a'i symud i ddyddiad diweddarach yn y flwyddyn.

## 4. Diweddariad ar Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

**4.1** Rhoddodd Steven Marshall ac Angharad Reakes ddiweddariad ar y gwaith ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Canolbwyntiodd trafodaeth y Bwrdd ar y canlynol:

**4.2 Ble rydym arni nawr o ran datblygu'r Fframwaith Perfformiad**

- Mae'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Fframwaith Perfformiad wedi'i drosglwyddo i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio'r Fframwaith Perfformiad. Mae themâu terfynol y fframwaith wedi'u cytuno drwy drafodaeth â'r Bwrdd, uwch reolwyr eraill yn fewnol ac ymchwilwyr yn InCiSe.

**4.3 Sut y bydd y Fframwaith Perfformiad yn gweithio yn ymarferol.**

- Mae nifer o themâu i Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru sy'n ei wneud yn fframwaith eang a thrylwyr. Bydd y Fframwaith Perfformiad yn gweithredu ar gylch blynyddol treigl. Bydd y gwaith adrodd yn cynnwys graddfeydd perfformiad lefel uchel a naratif a fydd yn darparu cyd-destun

a dehongliad ar gyfer pob dangosydd sydd ar gael ar y cyd â'r perchnogion busnes perthnasol.

**4.4 Cynlluniau ar gyfer adrodd am y Fframwaith Perfformiad**

- Mae'r tîm wrthi'n trafod â'r perchnogion busnes pa fath o wybodaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu a beth allai'r dangosyddion fod. Cynigir anfon y set o ddangosyddion a argymhellir at y Bwrdd er mwyn eu trafod yn y cyfarfod nesaf fis Ebrill. Bydd y Bwrdd hefyd yn cael y data sylfaenol ar gyfer y dangosyddion pan fo'r data hynny ar gael.

**4.5** Croesawodd y Bwrdd y papur a thrywydd y gwaith hwn a diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Jeff Farrar a'r tîm am eu holl ymdrechion i symud y gwaith hwn ymlaen i'r lefel nesaf.

**5. Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith**

**5.1** Darparodd Amelia John ac Andrew Charles wybodaeth ynglŷn â sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) yn cael ei rhoi ar waith a sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Rhoesant hefyd drosolwg o'r cynnydd a diweddariad ar allu polisi.

**5.2** Rhoddodd Amelia gyflwyniad gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Prif Swyddogaethau Deddf LlCD
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac adborth Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Heriau a Chyfleoedd
- Fframwaith Gallu Polisi
- Strwythur y Ddeddf gan gynnwys gwybodaeth ynghylch:
    - Y Nodau Datblygu Cynaliadwy
    - Nodau Llesiant Cymru
    - Dangosyddion a cherrig milltir
    - Amcanion
    - Ffyrdd o weithio yn gynaliadwy
    - I bwy y mae'n berthnasol

**5.3** Dywedodd Amelia hefyd y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyhoeddi'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru statudol cyntaf ddiwedd mis Ebrill, ac y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad ar yr archwiliadau o'r holl gyrff rhestredig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bydd y ddau adroddiad yn cael eu gosod gerbron y Senedd.

**5.4** Eglurodd Amelia fod y dull arfaethedig o lunio polisïau mewn ffordd integredig wedi'i fframio gan Ddeddf LlCD. Dyma un o'r prif gamau sy'n cael eu cymryd i sefydlu'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn gosod y seiliau i ddatblygu polisïau mewn ffordd fwy ystyriol sy'n manteisio yn fwy ar ddatrysiadau ar draws portffolios ac sy'n ymgorffori syniadau ataliol mwy hirdymor, cydweithio, cynnwys ac integreiddio.

**5.5** Dylai'r dull hwn helpu i ystyried polisïau newydd, a pholisïau sydd eisoes yn bodoli, o safbwynt gwahanol ac ysgogi trafodaeth â Gweinidogion, cydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol i sicrhau ein bod yn cyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

**5.6** Cydnabu'r Bwrdd bwysigrwydd y gwaith hwn a rhoddodd ei gefnogaeth i'r dull o sefydlu Deddf LlCD o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gwaith Proffesiwn Polisi.

## 6. Adroddiad Cyllid

**6.1** Cyflwynodd Gawain Evans adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Ionawr 2020 (mis 10). Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2019-20, sef Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 4 Chwefror.

**6.2** Roedd y trafodaethau pellach yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn cyfredol
- Y gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) gyfredol
- Cronfa wrth gefn DEL sydd heb ei dyrannu

## 7. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

**7.1** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddiweddariad i'r Bwrdd ar y gwaith ynglŷn â'r Strategaeth ar y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg a ddenodd sylwadau cadarnhaol gan y Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y gwaith wedi symud ymlaen i'r lefel nesaf ac y byddai'r strategaeth yn cael ei lansio ddiwedd mis Mawrth. Croesawodd y Bwrdd hyn.

## 8. Y Pwyllgor Tâl

**8.1** Rhoddodd Jeff Farrar ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Tâl. Dywedodd fod y drafodaeth wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ac y cafwyd trafodaeth dda ynglŷn â phwysau tymor byr ar adnoddau a meddwl yn fwy hirdymor. Gofynnodd y Bwrdd a ellid llunio rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Tâl yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU 5:** Jeff Farrar, Peter Kennedy a Natalie Pearson i lunio rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Tâl yn y dyfodol.

### Camau yn codi yn y cyfarfod o'r Bwrdd

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1**: David Richards a Peter Kennedy i lunio nodyn ar gyfer Cyrff Hyd Braich. | David Richards | Wedi ei gau |
| **CAM GWEITHREDU 2:** Pawb i gofnodi penderfyniadau a thybiaethau ar waith yn ymwneud â COVID-19. | Pawb | Parhaus |
| **CAM GWEITHREDU 3:** Llunio papur cryno ychwanegol i gynnwys tabl o gamau allweddol ac ystadegau ynghylch dull gweithredu gwledydd eraill gan gynnwys cost, cyn y sesiwn herio. | Nicola Edwards | Parhaus |
| **CAM GWEITHREDU 4:** Adolygu dyddiad y sesiwn herio ynglŷn â'r cynnig gofal plant a'i symud i ddyddiad diweddarach yn y flwyddyn. | Gareth Lynn/ Nicola Edwards | Parhaus |
| **CAM GWEITHREDU 5:** Jeff Farrar, Peter Kennedy a Natalie Pearson i lunio rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Tâl yn y dyfodol. | Jeff Farrar, Peter Kennedy a Natalie Pearson | Parhaus |